



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Uned Gomisiynu  
Cydwethredol Cenedlaethol  
National Collaborative  
Commissioning Unit

# Gwella Amgylcheddau, Gwella Bywydau

Adolygiad penodol o Amgylcheddau Cleifion  
Mewnol ag Anabledd Dysgu ledled Cymru yn 2023

Chwefror 2024

# Gwella Amgylcheddau, Gwella Bywydau

## Trosolwg

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan dîm polisi Anableddau Dysgu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion a wnaed yn adolygiad Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) 2020 o Ysbytai Anableddau Dysgu – Gwella Gofal, Gwella Bywydau.

## Awduron

Ysgrifennwyd yr Adroddiad hwn gan Debra Hillman, NCCU. Mae cyflwyniad yr adroddiad hwn wedi'i gydlynu gan Leeha Kostin gyda mewnbwn ychwanegol gan Adrian Clarke, NCCU.

## Data

Mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad penodol hwn yn ymwneud â gwybodaeth a gasglwyd o Unedau Ysbytai Cleifion Mewnol ag Anableddau Dysgu yn ystod ymweliadau safle a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2023 a Medi 2023.

Sylwch efallai na fydd rhai canrannau yn gwneud cyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu.

## Cydnabyddiaethau

Dylid nodi'r arbennig gyfraniad Aine Davies, NCCU, a gynorthwyodd gydag ymweliadau safle.

### **Gyda diolch arbennig i:**

Dîm Polisi Anableddau Dysgu Llywodraeth Cymru am gomisiynu a chefnogi'r prosiect hwn.

# Cynnwys

<b>Crynodeb gweithredol</b> .....	<b>4</b>
<b>Rhan A: Cefndir</b> .....	<b>6</b>
• Cefndir a Chyflwyniad i gyflwyno'r adroddiad hwn.....	7
• Amgylcheddau Galluogol – Beth ydyn nhw ac a ydyn nhwv ar gael?.....	8
• Trosolwg o'r unedau o fewn tirlun Cymru.....	10
• Methodoleg.....	15
<b>Rhan B: Unedau yng Nghymru</b> .....	<b>16</b>
• Adolygiad o wasanaethau a disgrifyddion ychwanegol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad penodol hwn.....	17
<b>Rhan C: Themâu sy'n dod i'r amlwg</b> .....	<b>36</b>
<b>Rhan D: Argymhellion</b> .....	<b>40</b>

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adolygiad hwn yn archwilio'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ar gyfer cleifion mewnol ag Anableddau Dysgu ac yn helpu comisiynwyr a darparwyr i ddeall a diogelu at y dyfodol y maes newidiol, y galw am wasanaethau a'r gofynion darparu ar gyfer dinasyddion Cymru sydd ag Anabledd Dysgu, sy'n destun newidiadau yn eu lles iechyd meddwl ac y mae angen gofal a chymorth arbenigol cleifion mewnol arnynt.

Nododd yr adolygiad penodol hwn fod mwyafrif yr adeiladau o fewn y garfan hon yn ddegawdau oed. Yn aml cânt eu haddasu at ddibenion gwahanol i weddu i'r cyflenwad a'r galw yn yr ardal honno. Nid oedd yr unedau wedi eu "gwasgaru'n gyfartal" ledled Cymru. Dim ond o fewn rhanbarthau'r De-orllewin, y De-ddwyrain, y Gogledd-ddwyrain a'r Gorllewin (Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerffili, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Sir Ddinbych a Chonwy) yr oedd unedau ar gael. Mewn sefyllfa ddefnyddol, byddai gan Gymru gydbwysedd o wasanaethau ar draws y wlad i gefnogi dinasyddion Cymru ble bynnag y maent yn byw a lleihau'r angen i deithio pellteroedd annerbyniol o gartref, i gael y driniaeth gywir, ar yr amser cywir, yn y lle cywir.

Mae dadansoddiad o'r data yn dangos bod llawer o'r unedau mewn mannau anghysbell. Canfuwyd rhai yng ngweddillion sefydliadau arhosiad hir, caeedig. Yn yr achosion hyn, roedd yr unedau yn aml yn agored i ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y darparwr ac amlygu pryderon am fesurau diogelwch annigonol. Dylid cynnig gwasanaethau mewn unedau sydd mor ddiogel â phosibl, i bawb sy'n dod i gysylltiad â nhw.

Roedd y data a gasglwyd yn dangos nad oes model gofal cyson wrth ddisgrifio cyfleusterau "claf mewnol" ar gyfer pobl ag anabledd dysgu (PWLD). Roedd yr ystadau yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adolygiad hwn yn cynnwys unedau ysbyty (wardiau), tai estynedig o fewn yr un tiroedd ag unedau ysbytai a thai cymunedol. Roedd rhai o'r tai cymunedol hyn yn eiddo i awdurdodau tai lleol ac yn cael eu rheoli gan weithwyr y Byrddau Iechyd Lleol perthnasol. Nodwyd rhai fel "trefniadau tridarn (gweithwyr iechyd yn rheoli gweithrediadau dyddiol, Ystadau Iechyd a Thai Awdurdod Lleol yn gyfrifol am adeiladau a thiroedd allanol). O fewn y trefniant olaf y canfu'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) fod hyn yn creu dryswch, gan arwain yn aml at oedi yn y prosesau penderfynu ar geisiadau cynnal a chadw ac yn y pen draw y trefniadau ariannu ar gyfer gwneud gwaith. Yn sicr, dylanwadodd hyn ar ansawdd a darpariaeth amgylcheddau mwy diogel a galluogol i bawb dan sylw.

Roedd yn amlwg mewn rhai achosion (yn narpariaeth y GIG fel arfer) y bu'r gwaith yn disgwyl cael ei wneud ers dros gyfnod o dri mis ac ar adeg yr adolygiad nad oedd dyddiad gorffen/dyddiad cwblhau i ddod.

Mae'n anodd sicrhau bod gofynion sylfaenol bywyd dyddiol ar gael i bobl ag anabledd dysgu pan fyddant mewn argyfwng ac i ffwrdd o'u hamgylcheddau arferol. Yn aml, rhagwelir bod lleoliadau a gomisiynir yn fannau galluogi ac yn gallu diwallu anghenion dynol sylfaenol. Mae'n hanfodol bod pob uned yn gallu bodloni anghenion dynol dyddiol fel man cychwyn.




O'r arsylwadau uniongyrchol a wnaed, mae'n amlwg bod gwahaniaethau rhwng y math unedau cleifion mewnlol a'r agwedd tuag at fesurau atal a rheoli heintiau. Yng Nghymru, mae disgwyl i'r holl gyfleusterau "cleifion mewnlol" ddilyn polisiau a gweithdrefnau cyson p'un a yw'n uned a ddarperir gan wasanaethau'r Bwrdd Iechyd neu'r Sector Annibynnol.

Amlygodd yr adolygiad fod rhai unedau'n buddsoddi mewn gwasanaethau gwesty/ domestig a oedd ar wahân i staff craidd sy'n darparu'r elfennau darparu gofal. Roedd hyn yn galluogi dull manwl gywir o sicrhau a chynnal safonau glanweithdra cymeradwy. Fodd bynnag, mewn unedau o fewn y lleoliadau cymunedol, roedd disgwyl y gallai staff craidd gyflawni'r dyletswyddau ychwanegol hyn o fewn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'n anochel felly bod "gofalwyr" yn rhoi llai o flaenoriaeth i ddyletswyddau domestig sy'n arwain at beidio â chyrraedd safonau bob amser oherwydd prinder amser. Gellid dadlau y byddai disgwyl o fewn yr unedau hyn y byddai pobl ag anabledd dysgu yn ymgymryd â rhai o'r tasgau hyn fel rhan o ddatblygu eu sgiliau byw dyddiol

trwy ddefnyddio'r model cymorth gweithredol. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r unigolion ar y cam hwnnw i gwblhau'r tasgau neu'n methu oherwydd cyflyrau iechyd eraill.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi themâu a gwahaniaethau mewn perthynas ag athroniaethau "claf mewnlol" yn erbyn "patrymau byw cyffredin", gan ddibynnu ar y gwasanaeth y mae pob uned yn ei gynnig. Dylai'r darllenydd gwestiynu'r ddwy elfen hyn drwy gydol y deunydd pwnc a ddisgrifiwyd, mewn perthynas ag ymdrin a deall y canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd fel (ond heb fod yn gyfyngedig i):- hygyrchedd, cyfathrebu cynyddol, gwacáu mewn tân, neilltuaeth, manau awyr agored a llwybrau gofal PWLD.



# Rhan A

## Cefndir

# Cefndir a Chyflwyniad

Mae llenyddiaeth ac ymchwil yn hysbysu partneriaid gofal iechyd bod amgylcheddau therapiwtig yn ganolog i ffocws ac adferiad cleifion. Awgryma'r dystiolaeth y bydd amgylchedd diogel a chroesawgar yn galluogi cleifion i deimlo bod rhywun yn "poeni amdanynt" a chael profiad gwell yn anochel tra byddant yn yr ysbyty.

Un maes lle mae angen dealltwriaeth ychwanegol yw ansawdd yr amgylcheddau cleifion mewnol yng Nghymru, a ddarperir gan y GIG neu'r Sector Annibynnol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i osod i ddisgrifio a dilysu'r canfyddiadau cyfredol sy'n berthnasol i'r cais comisiynu gan Lywodraeth Cymru.

Fel y mae llenyddiaeth flaenorol (Gwella Gofal, Gwella Bywydau 2020) yn ei amlinellu, er gwaethaf y dyheadau i bobl ag anabledd dysgu gael gofal a chymorth yn eu lleoliad cymunedol, bydd angen cyfnod yn yr ysbyty ar rai dinasyddion ar ryw adeg yn ystod eu hoes. Dengys y dystiolaeth hefyd fod rhai unigolion wedi aros mewn ysbytai am y rhan fwyaf o'u cylch bywyd. Mae polisi a deddfwriaeth yn disgwyl y bydd gan y rhai sy'n derbyn gofal yn y math hwn o leoliad yr hawl i dderbyn gofal mewn amgylcheddau diogel a galluogol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu cysondeb â Safonau Ansawdd 2023, sy'n datgan,

**"Y bwriad cyffredinol yw adeiladu ar y diwylliant cadarnhaol o ansawdd sydd wrth wraidd system iechyd Cymru, gan weithredu dyletswydd ansawdd system gyfan ehangach sy'n cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau, gweithredu, gwella ac yn y pen draw, canlyniadau gwell i'r boblogaeth".**

Mae pwynt 5.10 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cadarnhau bod,

**"Y ddyletswydd ansawdd yn berthnasol i Fyrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardaloedd gyda'r nodau canlynol: Gwella canlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Hyrwyddo lles. Lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws eu poblogaeth. Comisiynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion eu trigolion".**

Mae nifer o ddiffiniadau o ansawdd yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal. Yma yng Nghymru, diffinnir ansawdd fel y broses o fodloni anghenion y boblogaeth "yn barhaus, yn ddibynadwy, ac yn gynaliadwy". Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i wasanaethau sicrhau eu bod yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r datganiadau hyn yn hollbwysig wrth ystyried ansawdd a diogelwch adeiladau a ddefnyddir fel rhan o ddarparu gofal i boblogaethau. Gyda'r ymdrech hon ac o fewn paramedrau'r adolygiadau ffocws a gynhaliwyd y mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r ddarpariaeth i gael ei phortredu drwy lens anghenion (cleifion) unigol, anghenion staff ac anghenion ymwelwyr.

# Amgylcheddau Galluogol – Beth ydyn nhw ac a ydyn nhw ar gael?

Swyddogaeth gwasanaethau cleifion mewnol i oedolion yw darparu gofal diogel yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol. Mae Deddf Iechyd Meddwl (DIM 1983) hefyd yn nodi'r gydbertynas rhwng yr amgylchedd a'r effaith ar ddiogelwch, preifatrwydd, urddas, ymddygiad a lles cleifion. Dylai darparu'r amgylchedd cywir hefyd gydnabod a pharchu anghenion amrywiol y boblogaeth (Deddf Cydraddoldeb 2010).

Dylai amgylchedd ffisegol yr unedau hyn alluogi gweithredu ymyriadau i ddarparu canlyniadau therapiwtig cadarnhaol ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu. Cydnabyddir bod unigolion yn aml yn gwella'n gyflymach pan fyddant yn teimlo'n ddiogel. Wedi dweud hynny, mae staff hefyd yn teimlo'n ddiogel ac yn fwy bodlon wrth weithio mewn amgylcheddau da, galluogol ac maent yn llai agored i salwch, ac yn aml ceir gwelliant cyffredinol o ran cadw staff. Felly, mae'r amgylchedd yn elfen hanfodol o ddarparu gofal cost-effeithiol o ansawdd uchel.

Mae ymchwil yn amlgu bod diffyg tystiolaeth mewn diffiniad y cytunwyd arno'n eang o "amgylcheddau galluogol". Fodd bynnag, cânt eu disgrifio'n aml mewn perthynas â seilweithiau, llywodraethu ac enghreifftiau o fframweithiau prosesau clinigol (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion – Safonau Galluogi'r Amgylchedd). Fel y trafodwyd yn y paragraff blaenorol, mae cynnwys yr amgylchedd i hwyluso'r safonau hyn yn hollbwysig a dylai fod yn brif flaenoriaeth wrth ddarparu gofal.

Awgryma'r dystiolaeth mai amgylcheddau galluogol yw'r rhai sy'n cynnig cymorth, cysur ac ymyriadau therapiwtig, sydd i gyd yn cynorthwyo unigolion i deimlo'n ddiogel, yn enwedig ar adeg pan fyddant mewn trallod neu mewn perygl o niwed. Maent yn lliniaru effeithiau byw gydag eraill mewn lleoliad cyfyngedig, yn sicrhau lefelau priodol o ddiogelwch, yn cefnogi gweithgaredd ystyrlon ac amgylcheddau (mewnol ac allanol) o ansawdd uchel ac yn caniatáu hyblygrwydd wrth ddiwallu anghenion gwahanol boblogaethau o ran eu hamrywiaeth.

Mae catalydd nodi beth yw amgylchedd galluogi yn cynnig llwyfan i nodi'r math o feysydd a fydd yn cefnogi cynaliadwyedd yr uned ar gyfer hirhoedledd ei gweithrediad. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys (er enghraifft) ansawdd bywyd, adeiladwaith a deunyddiau adeiladu, cynhwysiant cymdeithasol, adferiad, diogelwch, diogeledd a rheoli heintiau.

- Mae ansawdd bywyd yn ymwneud â'r amgylchedd therapiwtig lle mae golau dydd naturiol ar gael gyda golygfeydd o'r dirwedd.
- Mae'r ardaloedd yn lân, heb fod yn ddrewllyd, gydag awyru digonol a thymheredd amgylchynol y gellir eu rheoli.
- Gellir addasu'r lefelau sŵn i ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n byw yno. Mae yna le tawel (heb lawer o ysgogiad) ar gael sydd oddi wrth ardaloedd prysur.

- Dylai unedau gynnwys mannau cymdeithasol y tu allan i'r ardal fewnol, sydd eto'n cynnig golygfeydd priodol ac yn cynnig lloches mewn tywydd garw.
- Mae hygyrchedd yn hollbwysig i bob parti ac mae'r holl dderbynfeydd yn ddeniadol, wedi'u cynllunio'n dda ac mae arwyddion clir, gweladwy sy'n bodloni anghenion derbynyddion unigol.
- Mae digon o leoedd ar gael ar gyfer sgysiau/ymyriadau preifat. O fewn yr adeilad dylai fod mannau penodol i dderbyn ymwelwyr a chynnwys anghenion ymweld plant.
- Dylai rhaglen o weithgareddau mewnol ac allanol fod ar gael, gan gynnwys man ymarfer a seddau digonol ar gyfer ymlacio sy'n ddiogel ac yn yr awyr iach.
- Mae ystyriaethau preifatrwydd, urddas a diogelwch yn golygu y bydd yr amgylchedd yn cefnogi ardaloedd rhywedd-benodol, preifatrwydd mewn ardaloedd toiledau ac ystafelloedd ymolchi ac nid yw'r dyluniad yn amharu ar y llinell olwg ac mae'r holl allanfeydd a mynedfeydd yn weladwy i staff.
- O ran diogelwch, ni ddylai'r amgylchedd gyfyngu ar unigolion tra'n cynnal lefelau priodol o ddiogelwch. Mae systemau larwm yn gymesur â'r anghenion o'r boblogaeth sy'n byw yno. Mae eiddo personol yn ddiogel ac yn hygyrch yn unol â phroffilio risg.
- Yn dibynnu ar y math o uned a'i model gofal gweithredol, bydd arfer gorau yn dylanwadu ar sut i ddarparu galluogi pellach. Er enghraifft, cynhyrchedd yr unigolion hynny ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) "It's not Rocket science" (NDTi 2017) sef canllawiau yn ymwneud â "wardiau synhwyraidd-gyfeillgar", yn dangos sut i greu amgylchedd rhagweladwy, cyfnewid larymau am larymau distaw, lleihau sŵn a acwsteg, newid goleuadau fflwroleuol am ddewisiadau eraill, ystyried effaith gwahanol arogleuon ac effaith cyffwrdd a theimlad. Er bod yr ymchwil yn ymwneud â CAMHS, mae anghenion pontio i fyd oedolion yr un fath, felly mae angen yr un ymrwymiad ar amgylcheddau oedolion.
- Ar ôl disgrifio beth yw amgylcheddau galluogol, bydd yr adroddiad hwn yn dangos trwy ei ganfyddiadau fod ymgais at gynnig rhai elfennau; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y safonau hyn yn cael eu bodloni mewn niferoedd bach, yn amrywio o ran cysondeb o fewn yr un darparwyr gwasanaethau ac o'r naill ddarparwr i'r llall ledled Cymru.


# Trosolwg o Unedau yng Nghymru

Mae cyfanswm o 28 o unedau ledled Cymru sy'n darparu gwahanol fathau o wasanaethau cleifion mewnol ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu. Darperir yr unedau hyn gan y GIG a'r Sector Annibynnol. Maent yn darparu gwasanaethau ar draws ystod o arbenigeddau. Maent yn Unedau Diogelwch Isel, Allanfa A/Nas Reolir, Gofal Iechyd Parhaus ac Unedau Asesu a Thrin.

**Ffigur 1:**  
map o Gymru



**Ffigur 2:**  
**Unedau Ledled Cymru**



## Gwasanaethau Asesu a Thrin

Gwasanaethau yw Unedau Asesu a Thrin (UAT) sydd wedi’u cynllunio i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ac anghenion seiciatrig ychwanegol neu ar gyfer ymddygiadau heriol. Uned yw hon sy’n seiliedig ar leoliadau tymor byr ar gyfer asesu cyflym a thriniaeth aciwt. Mae Mencap wedi cynhyrchu canllawiau i unigolion “Your rights if you are in an assessment and treatment unit– meeting the challenge”. Mae’n nodi bod hawliau dynol unigolion yn hollbwysig a bod ganddynt yr hawl i gymorth da. Diffinnir “cymorth da” yn y cyd-destun hwn fel mynd allan a chael awyr iach, gwneud ymarfer corff, cael galwedigaeth/gweithgaredd a bwyta’n iach, a’r cyfan yn y ffordd leiaf cyfyngol.

Mae’r adolygiad penodol hwn yn cydnabod yr argymhellion o bapur Mencap a thrwy weithredu pecyn cymorth ASSET, gall gynnwys y meysydd hyn fel rhan o’r disgrifiad o “amgylcheddau galluogol”.

O’r 28 uned a adolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd 5 (18%) wedi’u dosbarthu fel unedau Asesu a Thrin (UAT), a oedd mewn 3 o’r 7 ardal Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 31 o welyau yng Nghymru ar gyfer dinasyddion y mae angen y lefel hon o ofal a thriniaeth arnynt.



## Gwasanaethau Diogelwch Isel

Cynllunnir Unedau Diogelwch Isel (UDI) i ddarparu ar gyfer unigolion ag anghenion mwy cymhleth ac na ellir eu cefnogi'n ddiogel mewn unedau nad ydynt yn ddiogel.

Mae unigolion a dderbynnir i'r math hwn o uned yn aml yn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (DIM 1983) oherwydd y risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill y mae angen gofal a chymorth mwy arbenigol arnynt.

O Ffigur 2, mae'n amlwg nad yw'r math hwn o uned ar gael o gwbl yng Nghymru wedi'i darparu gan Fyrddau Iechyd. Mae cyfanswm o **3** uned (11%) yng Nghymru, a ddarperir gan y Sector Annibynnol ac mae'r rhain wedi'u lleoli yn ne tirwedd Cymru. Ar hyn o bryd mae **26** o welyau ar gael yng Nghymru o fewn y math hwn o uned.

## Gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus

Mae'r unedau hyn yn cefnogi unigolion y mae angen gofal/cymorth tymor hwy arnynt. Mae'r diffiniad allweddol yn glynu at ddarparu "pecyn o ofal parhaus sy'n cael ei drefnu a'i ariannu gan y GIG yn unig". Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer GIP hefyd yn nodi nad yw gofal parhaus yn cael ei bennu gan y lleoliad lle gellir cynnig y pecyn cymorth na'r math o wasanaeth a ddarperir. Amlygodd yr adolygiad penodol fod rhai o'r unedau hyn o fewn unedau ysbyty a rhai o fewn lleoliadau lleol / cymunedol. O ffigur 2, gellir canfod fod mwyafrif yr unedau yn perthyn i'r categori hwn, gyda chyfanswm o **14** (50%) uned gyda **67** gwely ar gael. Yn ystod yr adolygiad, roedd **2** o'r gwelyau hyn mewn uned a oedd wedi'i chau gan y darparwr. Roedd y rhesymau dros gau yn bennaf oherwydd nifer yr atgyweiriadau / gwaith moderneiddio yr oedd eu hangen. Fodd bynnag, cafodd ei hailagor oherwydd y galw am wasanaethau a'r angen i gefnogi dau unigolyn o'r gymuned.

## Gwasanaethau Allanfeydd a Reolir a Nas Rheolir

Mae gwasanaethau Allanfeydd a Reolir hefyd yn cael eu disgrifio'n aml fel unedau "adsefydlu dan glo". Fe'u diffinnir fel "gwasanaeth i helpu pobl i wella o anawsterau cyflyrau iechyd meddwl tymor hwy. Maent yn cefnogi unigolion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd pob dydd. (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion). Y nod yw darparu asesiadau, triniaeth a chymorth arbenigol i sefydlogi symptomau ac adennill/ennill sgiliau. Y prif nodau yw dysgu sgiliau emosiynol, gwybyddol a chymdeithasol i unigolion i'w helpu i fyw yn eu cymunedau mor annibynnol â phosibl." (CQC 2019). Yn y math hwn o uned, mae modd cloi'r drysau er mwyn atal pobl rhag gadael heb i hynny fod wedi ei gynllunio. Mae gwasanaethau allanfa nas rheolir yn cefnogi unigolion yn yr un modd ag allanfa a reolir. Fodd bynnag, y gwahaniaeth yw bod yr unedau hyn yn gyffredinol yn cloi'r fynedfa a'r allanfeydd gyda'r nos yn unig at ddibenion diogelwch.

Dengys Ffigur 2 fod **5** (18%) o unedau ar hyn o bryd yn cynnig cymorth Allanfa a Reolir gyda chyfanswm o **39** o welyau ar gael ac **1** (4%) uned Allanfa Nas Rheolir yng Nghymru, gyda **10** gwely wedi'u dyrannu.









# Methodoleg

Mae NCCU eisoes wedi cynnal adolygiadau ansawdd, wedi'u halinio â nifer o yrwyr polisi arwyddocaol ac adolygiadau thematig. Yn 2020, nododd Gwella Gofal, Gwella Bywydau rai o'r materion allweddol mewn perthynas â gofal a thriniaeth i ddinasyddion Cymru sydd ag anabledd dysgu ac y mae angen triniaeth arnynt fel cleifion mewnol. Mewn ymateb i argymhellion Gwella Gofal, Gwella Bywydau, mae NCCU wedi'u comisiynu i adolygu a yw'r adeiladau presennol (ystâd) yn bodloni'r gofynion a'r pwrpas, yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Yn gyntaf, roedd cwmpas yr adolygiad penodol hwn yn gofyn am nodi unedau sy'n cefnogi triniaeth cleifion mewnol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, ar draws ein maes presennol yng Nghymru. Nodwyd y rhain trwy ohebiaeth â'r Rhanddeiliaid perthnasol a gwybodaeth a ddefnyddir gan NCCU yn ddyddiol.

Mae ymchwil mewn perthynas â phobl ag anabledd dysgu yn aml yn gyfyngedig ac yn benodol i rai agweddau ar yrwyr cyfredol ac amodau deddfwriaethol. Roedd yr adolygiad penodol hwn felly yn gofyn am ddull pwrpasol sy'n cwmpasu canllawiau arfer gorau a safonau Fframwaith NCCU.

Adolygodd y data dystiolaeth ar gyfer anghenion cleifion o ran eu manau personol. Mae hyn yn cynnwys ystafell wely, en-suite, lolfa, ystafell fwyta, golchdy, therapi, clinig/triniaeth ac ystafelloedd neilltuaeth. Cafodd ardaloedd eraill a ddisbarthwyd yn "ardaloedd cyffredinol" eu cynnwys, gan gynnwys coridorau, storfeydd, chwilio/diogelwch, ysgogiad isel/tawel (gan gynnwys ystafelloedd synhwyraidd), aml-ffydd, cegin uned, ystafelloedd ymolchi/toiledau cymunedol, defnyddio teledu cylch cyfyng, mynedfa ac allanfa, ardaloedd allanol, gerddi a chyrtau. Mae cyfanswm o 175 darn o wybodaeth

yn ymwneud â'r meysydd hyn ar gyfer pob un o'r unedau wedi'u pennu yn yr adolygiad hwn.

Bu casglu data hefyd yn gymorth i ddangos sut mae unedau'n diwallu anghenion gweithwyr o ran cefnogi darparu gofal yn ddiogel. Drwy'r lens hon, canfu'r setiau data yr hyn sy'n cefnogi staff mewn perthynas â'u; swyddfeydd/lleoedd gwaith, ystafelloedd hyfforddi/cyfarfod, ystafelloedd gorffwys, manau gofal personol, mynediad a chyfleusterau parcio. Casglodd yr adolygiad 51 darn o wybodaeth yn ymwneud â'r maes hwn ar gyfer pob uned yr ymwelwyd â hi trwy gydol yr adolygiad.

Fel y dengys ymchwil, mae pobl ag anabledd dysgu yn aml yn gorfod teithio ymhellach i ffwrdd o'r cartref i gael gofal cleifion mewnol. Mae hyn yn effeithio ar gyswllt â theulu, ffrindiau ac yn aml gweithwyr proffesiynol o'u timau gofal lleol. Roedd yr adolygiad yn crisialu data yn unol â hyn, o ran manau aros ymwelwyr, ystafelloedd ymwelwyr, mynediad a pharcio. Yn y maes hwn, casglwyd dau ddeg tri darn o dystiolaeth i ddangos beth yw'r dulliau cefnogi uned presennol.

Roedd adran olaf yr adolygiad yn dangos sut mae darparwyr yn cynnal eu safonau ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'i weithrediad gweithredol a chlinigol. Felly, casglwyd data sy'n ymwneud â risg diogelwch a chlymiadau, cylchoedd archwilio a rheoli cynnal a chadw. Ar gyfer pob un o'r unedau, mae deuddeg darn o wybodaeth yn ymwneud â hyn.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan ddwy Nyrs Gofrestredig Anabledd Dysgu hyfforddedig a phrofiadol, a gyflogir ar hyn o bryd yn yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol.

Cafodd pob un o'r unedau sy'n ymwneud â'r adolygiad ffocws hwn ohebiaeth yn rhoi gwybod iddynt am yr amserlenni adolygu.





## Rhan B

**Adolygiad o wasanaethau a disgrifyddion ychwanegol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad penodol hwn**

# Adolygiad o wasanaethau a disgrifyddion ychwanegol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad penodol hwn

## Ystafelloedd Gwely

Edrychodd yr adolygiad ar nifer o safonau mewn perthynas ag ystafelloedd gwely ar gyfer cleifion mewn unedau cleifion mewnol. Roedd safonau'n cyfeirio at y ffaith y gallai ystafelloedd gwely gael eu grwpio'n glystyrau bach o ryw bum ystafell i greu awyrgylch da.

- Dylent fod yn ystafelloedd sengl gyda manau ar gyfer cysgu, gweithgaredd personol ac anghenion hylendid personol. Dylai'r ystafell wely fod o leiaf 15m<sup>2</sup> a dylai gynnwys en-suite.
- Ni ddylai ardaloedd allanol edrych drostynt; fodd bynnag, dylid gosod y ffenestr fel y gall yr unigolyn edrych allan.
- Dylai fod botwm ar alwad ar gael i staff.
- Dylai gwelyau fod o fath difán wedi'u gosod ar y llawr, ynghyd â dillad gwely priodol o ran diogelwch h.y. dim corneli elastig, gobenyddion sy'n gallu anadlu ac ati. Dylai dodrefn ystafell wely fod yn sefydlog ac ni ddylai fod yn symudol i rwystro golwg unigolion wrth ddefnyddio'r lle.
- Dylai fod gan yr ystafell fynedfa ac allanfa dda o ran gweithdrefnau tân.
- Dylai dyluniad yr ystafell ganiatáu ar gyfer defnyddio teledu, radio a ffynonellau cyfryngau eraill. Dylai fod cyfleusterau storio cloadwy ar gael ar gyfer dillad ac eitemau personol. Cypyrddau dillad, drysau, silffoedd gwrth-glymu gan gynnwys systemau "wedi'u hymgorffori" ar gyfer setiau teledu ac ati. Dylai fod gan yr ystafelloedd osodiadau a ffitiadau mecanyddol a thrydanol sy'n atal ymyrraeth. Dylid bod modd rheoli systemau goleuo, dŵr a thrydanol o'r tu allan i'r ystafell wely os oes angen (systemau ynysu).

## Ystafelloedd gwely hygrych

Dylai fod yr un opsiynau ar gael, ond yn gyffredinol fwy o ran maint (17m<sup>2</sup>-19m<sup>2</sup>), er mwyn cefnogi a chynorthwyo gydag anghenion symudedd ychwanegol. Bydd angen drych diogelwch ychwanegol o hyd llawn ac addasu uchder y gwely er mwyn sicrhau eu diogelwch.

## Ffenestri

O ran ffenestri, mae mynediad at awyr iach, golau naturiol a golygfeydd yn gwella ansawdd bywyd. Fodd bynnag, mae rhai ystyriaethau'n ofynnol i gefnogi diogelwch a diogeledd unigolion. Dylai'r fframiau fod wedi'u hadeiladu o ddur neu bren caled a gosodiadau wedi'u cuddio, dylai mecanweithiau agor fod yn gadarn, gan atal ymyrryd ac atal clymu. Dylai gwydr fod yn wydr gwydn i wrthsefyll ymdrechion i'w ddirodi. Gan ddibynnu ar lefel y diogelwch, bydd rhai agoriadau'n cael eu cyfyngu i 100mm. Efallai y bydd angen eu hadeiladu â rhwyll ddiogel i atal eitemau contraband rhag cael eu trosglwyddo.

## Triniaethau ffenestri

Dylent fod yn addas ar gyfer preifatrwydd ac amddiffyn unigolion gan ystyried eu gwahanol broffiliau risg. Y dewis a ffefrir yw triniaethau gwrth-glymu, sy'n rhan annatod o'r ffenestr ac yn cael eu rheoli gan yr unigolyn. Os oes llenni ar gael, dylai'r mowntinau / traciau eto fod o fecanwaith gwrth-glymu. Dylai'r holl ddeunyddiau allu gwrthsefyll tân, bod yn lân ac yn wrth-glymu.

## Drysau, handlenni ac ategolion drysau

Ni ddylai drysau fod ag unrhyw allwthiad heblaw mecanwaith yr handlen. Ni ddylai fod gan bendrawstiau silffoedd cudd. Ni ddylid eu gosod â hoelion a phinnau fel eu bod yn hawdd eu tynnu a'u defnyddio fel arfau. Dylai colfachau drysau fod â phinnau caeth.

Dylai drysau ystafelloedd gwely gael paneli Vistamatic gyda system gwrthwneud staff. Dylai'r systemau hyn gael eu hadeiladu ag amgylchoedd metel. Dylai drysau fod o systemau gwrth-faricêd a dylent allu agor allan mewn argyfwng. Dylai fod gan unigolion y cyfleuster i gloi eu hystafelloedd ond gyda chyfleuster gwrthwneud staff.

Eto, bydd systemau allweddol yn amrywio yn ôl y lefelau diogelwch sydd eu hangen. Gall allweddi fod yn rhai electro-fecanyddol, llaw, magnetig, cerdyn taro neu ddarllenwyr agosrwydd a biometrig. Dylai'r dyfeisiau hyn fod yn gysylltiedig â gweithdrefnau tân yr uned. Dylai handlenni drysau y tu mewn i ystafelloedd unigolion fod yn rhydd o glymiadau. Dylai handlenni fod naill ai o fath gafael bys neu "fwlyn gwrth-glymu".

## Lloriau

Dylai hyn fod yn gymesur â swyddogaeth yr ardal ac nid oes tystiolaeth o symudiad, difrod ac ni fydd yn achosi llithro, baglu a chwympto. Gall tecstilau leihau lefel sŵn yn aml. Os oes carpedi yn bresennol yna dylid defnyddio triniaethau gwrthfactorol, oherwydd rheolaethau atal heintiau. Mae angen gosod a chynnal a chadw unrhyw sribedi ehangu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr i atal damweiniau a chamddefnydd gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Goleuo

Dylai unedau geisio cydbwysu eu naws ag unedau domestig a naws darparu gwasanaeth. Dylai goleuadau fod yn rymus ac yn wrth-ymyrraeth er mwyn lleihau risg niwed. Dylent gael eu gosod ar y nenfwd a'u selio. Dylai staff allu rheoli goleuadau. Dylai fod goleuadau argyfwng ar gael ym mhob man y mae unigolion yn ei ddefnyddio os bydd eu hangen.

Wrth archwilio'r ardaloedd hyn, roedd yn amlwg nad oedd pob uned yn cwrdd yn llawn â'r safonau ar draws y meysydd yn ymwneud ag ystafelloedd gwely. Mae'n debyg mai'r safonau sy'n ymwneud ag ystafelloedd gwely cleifion yw'r safonau sydd bwysicaf i'r cleifion, o ran eu diogelwch a'u cysur, yn ystod y cyfnod y cânt eu derbyn i'r gwasanaeth.

O'r 28 uned:

 <b>27</b> Roedd 96% o unedau'n gallu dangos ei bod yn bosibl i <b>gleifion bersonoli eu hystafelloedd</b> os bernir ei bod yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.	 <b>24</b> Barnwyd bod gan 86% o unedau <b>olau a lloriau priodol</b> sy'n berthnasol i swyddogaeth pob uned unigol.	 <b>17</b> Dangosodd 61% o unedau fod y <b>ffnestri yn y fan a'r lle yn bodloni'r safonau</b> a oedd yn briodol i'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y pryd. Barnwyd bod gan <b>19</b> (68%) o unedau driniaethau ffenestr a oedd <b>yn lleihau risg clymu, yn gwrthsefyll tân ac ati</b> .
 Roedd gan <b>2</b> (7%) o arogl annymunol ar adeg yr adolygiad.		
 <b>14</b> Roedd gan 50% o'r unedau gynlluniau ar waith o ran cleifion yn <b>gadael yr adeiladau'n</b> ddiogel pe bai tân. Hefyd, roedd tystiolaeth mai dim ond <b>8</b> (29%) o unedau oedd â <b>botymau galw staff</b> ystafelloedd gwely cleifion.		
 <b>18</b> Roedd gan 64% o unedau storfa ddigonol ar gyfer eiddo cleifion.	 <b>24</b> O'r unedau a adolygwyd, baneli Vistamatic yn eu lle. <i>Mae drysau Vistamatic yn bwysig i sicrhau preifatrwydd cleifion gan hefyd gynorthwyo staff wrth ymgymryd â phrosesau arsylwi.</i>	<b>20</b> Yn olaf, o'r unedau a adolygwyd, roedd tystiolaeth bod <b>20</b> (71%) yn gallu bodloni unrhyw newid yn aseiniad rhywedd unrhyw unigolion.

**En-suites**

Mae'r safonau a ddefnyddir i archwilio'r ardaloedd hyn yn nodi y dylai'r rhain gynnwys toiled, basn ymolchi a chawod (gyda draen llawr). Dylent fod yn hygyrch o'r ystafell wely.

Dylai pob ystafell ymolchi (gan gynnwys ystafelloedd ymolchi cymunedol) gynnwys gosodiadau a ffitiadau gwrth-glymu cadarn gan gynnwys drych na ellir ei dorri. Ni ddylent roi'r cyfle i guddio eitemau.

Dylai fod hefyd modd Rheoli Atal Heintiau (RhAH) gyda'r eitemau hyn yn eu lle. Mae gan gyflenwadau dŵr i'r toiled, y basn, y gawod neu'r bath reolyddion "synhwyrdd symudiad" neu fotwm gwthio. Gall cyflenwad gael ei amseru i atal llifogydd yn yr ardal.

Dylid cuddio'r holl bibellau, gwaith plymwr a dwythellau a gellir ynysu dŵr o'r tu allan i'r ardal. Dylai llif dŵr fod yn briodol i ddefnydd a swyddogaeth yr ystafell h.y. basn, cawod, allfeydd toiled a rheoli tymheredd i atal llosgiadau damweiniol. Mae tapiau a ddefnyddir yn cefnogi anghenion yr unigolyn. Cynhelir gwiriadau / asesiadau risg rheolaidd i amddiffyn rhag legionella.

## Draenio

Yn cyd-fynd â llif dŵr. Yn sicrhau bod y draeniad yn ddigonol, nad oes dŵr llonydd yn amlwg, nac arogleuon na gorlif yn bresennol.

## Gorffeniadau

Dylent fod yn wrth-lithro a dylai waliau fod o orffeniad di-dor (dim teils ceramig yn bresennol). Rhaid i switshis golau fod y tu allan i'r ardal. Dylai drysau en-suite ddarparu preifatrwydd ond ni ddylent guddio golwg staff pan fyddant yn cael eu gadael ar agor gan unigolion. Dylent fodloni safonau gwrth-glymu a'r gallu i gael eu datgloi gan staff mewn safle agored a chaeedig.

## En-suites/ystafelloedd ymolchi a thoiled hygyrch

Mae angen i ystafelloedd ymolchi â chymorth fod o leiaf 15m<sup>2</sup> ac o fewn cyrraedd hawdd i ystafelloedd gwely. Mae teclyn codi uwchben yn ddymunol ond dylid ystyried addasrwydd oherwydd risg clymu unigolion. Dylai systemau codi eraill fod ar gael a chael eu storio'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Dylai fod canllawiau bachu symudadwy yn bresennol y gellir eu gosod a'u tynnu'n ddiogel pan nad oes eu hangen. Dylai ystafelloedd ymolchi cynorthwyol gynnwys toiled uchel gydag ymestyniad ychwanegol ar gyfer trosglwyddo cadeiriau olwyn. Mae toiledau hunan-lanhau fel arfer yn uwch gan ei gwneud yn haws trosglwyddo, basn gyda thapiau sy'n addas i gefnogi'r rhai â deheurwydd cyfyngedig (tapiau synhwyrydd o bosibl) a chanllawiau bachu, a ddylai fod o liw cyferbyniol i gynorthwyo unigolion â nam ar eu golwg.

Dylai'r drws mynediad agor tuag allan. Dylai dimensiynau gorfodol fod yn 2200mm o hyd a 1500mm o led o leiaf.



### 12

Roedd gan (43%) o'r unedau cyfleusterau ystafell ymolchi en-suite ar gyfer eu poblogaeth bresennol o gleifion mewnol.

*Nid oedd un o'r unedau Diogel yn gallu cynnig darpariaeth en-suite ar adeg yr adolygiad.*



### 5

Roedd (42%) o'r 12 uned a oedd yn darparu cyfleusterau en-suite, yn gallu darparu cyfleusterau en-suite â chymorth i bobl â phroblemau symudedd.



### 8

Roedd gan 75% o'r 12 uned a oedd yn darparu ystafelloedd ymolchi en-suite ddrysau priodol ar yr ystafelloedd ymolchi hynny a oedd yn caniatáu preifatrwydd priodol pan oedd angen ond a oedd hefyd yn bodloni safonau diogelwch mewn perthynas â lleihau risgiau clymu.

Hefyd, roedd 10 (83%) o'r 12 uned gyda darpariaeth en-suite wedi gorchuddio gwaith plymwr yn briodol er mwyn lleihau risgiau clymu.



## Ardaloedd Lolfa

Dylent gefnogi unigolion i ymlacio a chymdeithasu a bod o “ddyluniad cynllun agored”, gyda seddau ac addurniadau digonol. Dylai set deledu, diodydd a gweithgareddau fod ar gael felly dylai dewis dodrefn fod ar gael i fodloni'r gofynion hyn. Goleuadau naturiol da gyda ffenestri a golygfa.

Roedd lolfeydd ym mhob uned gyda threfniadau eistedd digonol i fodloni eu capasiti mwyaf. Roedd gan bob un fynediad at deledu, radio ac adnoddau gweithgaredd. Roedd y mannau yn yr ardal hon yn glir ac yn drefnus. Roedd gan bob cynllun lif da ar gyfer gofal cleifion a llinellau golwg clir. Y canfyddiadau eraill oedd:

## Ystafelloedd Bwyta

Dylent fod yn gymesur â nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Felly, dylai nifer y byrddau a chadeiriau ddiwallu'r angen.

Dylai'r awyrgylch fod yn ffafriol i swyddogaeth yr ystafell.

Gellir storio cyllyll a ffyrc a llestri mewn cwpwrdd y gellir ei gloi. Dylai amserlenni glanhau fod yn ddigonol i ateb y galw.

 **28**

Roedd 100% o'r unedau yn darparu **niferoedd priodol o fyrddau a chadeiriau** ar gyfer y nifer o gleifion yn yr uned.

 **17**

Roedd 17 uned o fewn yr ystafelloedd bwyta (61%) yn darparu **mynediad agored ac am ddim at ddiodydd poeth ac oer**.

 **24**

Gwnaeth 86% o unedau bodloni'r safonau angenrheidiol **ar gyfer llorion, golau ac awyru yn yr ardal hon**. Er enghraifft, roedd mesurau amddiffyn priodol rhag perygl llithro/baglu wedi'u sefydlu, systemau gwresogi/awyru priodol ar waith a goleuadau addas ar gyfer yr ystafelloedd perthnasol.



Roedd **8** uned (29%) **yn cydymffurfio'n llawn â safonau diogelwch tân** yn ardaloedd bwyta'r unedau a adolygwyd. Roedd rhai o'r safonau yn y maes hwn yn edrych ar argaeledd allanfeydd tân o leoliad yr ystafell fwyta ac yn glir o falurion ac ati, arwyddion clir/hygyrch/defnyddiwr-gyfeillgar yn bresennol.

## Ystafelloedd Neilltuo/ Ardal Gofal Ychwanegol








Mae'r safonau ar gyfer Ardaloedd Neilltuo a Gofal Ychwanegol yn cynnwys y farn y dylid eu dylunio a'u lleoli i hybu ysgogiad lefel isel a hybu diogelwch a lles corfforol yr unigolion sy'n eu defnyddio.

Dylent gynnig preifatrwydd ac urddas.

Dylai cloc fod yn weladwy i'r unigolyn i'w gyfeirio, goleuo digonol, awyru, gwresogi, systemau oeri a dŵr. Mae'r rhain yn eitemau y gall staff y tu allan i'r ardal eu rheoli os oes angen.

Ni ddylai ffenestri sy'n bresennol agor ond dylent gael bleind integrol i amddiffyn yr unigolyn. Dylai maint yr ystafell wely fod yn 15m<sup>2</sup> gan gynnwys yr en-suite.

Dylai drws rhwng yr en-suite a'r ystafell wely gael ei osod gyda chyfleuster cloi'n ôl llawn dan glawr. Gwely a matres yn unol â'r gweithdrefnau. Dylai pob ffitiad fod yn un sy'n atal ymyrraeth.

<p> Roedd gan <b>3</b> o'r 28 uned a adolygwyd <b>Ardaloedd ar wahân a/neu Ofal Ychwanegol (ECA's) ar gael.</b></p>	<p> Roedd gan <b>0</b> o'r unedau (0%) <b>ardaloedd ar wahân neu ECA a oedd yn gallu rheoli tymheredd neu awyru o'r tu allan i'r ystafelloedd.</b></p>	<p> <b>Nid oedd gan 1 o'r unedau (33%) loriau priodol yn eu lle, a oedd yn gallu gwrthsefyll difrod, wedi'u halinio i reoli heintiau ac o ddeunyddiau a oedd yn sicrhau clustogi pe bai achos o gwmpo, Hunan-niwed bwriadol ac ati.</b></p>
<p> <b>Nid oedd gan 1 (33%) o'r unedau orchuddion ffenestr priodol yn y fan a'r lle.</b></p>		
<p> Roedd gan <b>1</b> (33%) o'r 3 uned drefniadau eistedd amhriodol i gefnogi cadw cleifion pan oedden nhw mewn argyfwng.</p>		
<p> <b>1</b> <b>Nid oedd gan 33% o'r unedau gynllun gwacáu tân digonol ar waith, o ran cleifion yn yr ardal ar wahân/gofal ychwanegol.</b></p>	<p> <b>3</b> Roedd gan 100% o'r unedau a oedd yn darparu ardaloedd ar wahân/ECA <b>ddrysau a mecanweithiau cloi priodol, ffenestri a gwydr priodol, yn gallu dileu manau dall, gan gynnwys defnyddio TCC/drychau.</b> Roedd gwelyau a dillad gwely priodol, a oedd yn lleihau peryglon a risgiau i gleifion, hefyd yn cael eu defnyddio ym mhob un o'r 3 uned.</p>	

## Ystafelloedd Clinig/Triniaeth Cleifion

Disgrifir y rhain fel rhai sydd eu hangen i gefnogi gweithdrefnau clinigol yn yr amgylchedd; mae hyn yn cynnwys storio cyffuriau a chyflenwadau di-haint yn ddiogel. Cypyrddau storio ychwanegol a phriodol ar gyfer cyffuriau rheoledig.

Drws gydag agoriad o faint priodol i gefnogi dosbarthu meddyginiaeth i unigolion. Dylai ystafelloedd gael eu dylunio i gefnogi preifatrwydd unigolion wrth roi meddyginiaeth iddynt ac ni ddylid eu gosod mewn manau cymunedol.

Mae proses ar gyfer cymorth cyntaf, archwiliadau corfforol a gweithdrefnau clinigol eraill yn yr ystafell ac un lle nad yw diogelwch yr unigolyn yn cael ei gyfaddawdu. Dylai fod gwely/troli archwilio o uchder priodol, sy'n sefydlog ac wedi'i osod yn ddiogel.

Mae'n bosibl y bydd offer arall fel dadebru symudol gan gynnwys diffibriliwr, bag damwain, a pheiriant ECG yn cael eu storio yn yr un ardal felly mae angen bod cyfleusterau gwefru digonol ar gael. Dylai arwynebau gwaith, cypyrddau ac oergell fferyllfa fod ar gael.

Mae angen goleuadau dwysedd uchel ac isel. Sinc gyda dŵr poeth ac oer ar gyfer gweithdrefnau hylendid dwylo a system awyru briodol ar waith.

Dylai fod gan yr ystafell system awyru briodol a gellir ei chloi'n ddiogel pan na chaiff ei defnyddio.



**26**

Roedd gan 93% o'r 28 uned a adolygwyd **ystafelloedd triniaeth/clinigol ar gael.**

*Fodd bynnag, dim ond 12 (46%) o'r ystafelloedd hyn oedd yn addas i gefnogi'r defnydd gan gleifion â phroblemau symudedd, yn enwedig y rhai a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn.*



**100%** o'r

unedau a oedd **ag ystafelloedd triniaeth/Clinigol yn gallu eu diogelu rhag mynediad anawdurdodedig.**



**22**

(85%) o'r 26 uned **ag ystafelloedd perthnasol â chyfarpar hanfodol a oedd wedi'i raddnodi** goodei brofi ac a oedd mewn cyflwr gweithio da.



**Nid oedd 4 (14%) o'r 28 uned yn gallu dangos tystiolaeth o ddarparu offer dadebru meddygol brys ar unwaith a oedd un cael ei gynnal a'i gadw a'i wirio'n wythnosol.**



Barnwyd bod 15 (58%) o'r **15** ystafell oedd ar gael wedi'u goleuo a'u hawyru'n ddigonol.

## Ystafelloedd Therapi Cleifion

Yn meddu ar y cyfarpar i gefnogi swyddogaeth yr ystafell.

Dylid gosod yr ystafelloedd mewn mannau priodol, a fydd yn rhoi preifatrwydd i unigolion, ond diogelwch i staff therapi. Bydd hyn hefyd yn pennu'r math o offer sydd ei angen ym mhob un o'r ystafelloedd.

Bydd addurn a goleuadau ystafell yn addas i'r swyddogaeth.



Dim ond **8** (29%) o unedau oedd yn gallu cynnig ystafelloedd therapi pwrpasol.



Darparodd **16** (57%) o'r unedau **fynediad at wi-fi i gleifion mewn perthynas â chefnogi gweithgareddau therapiwtig.**



Dim ond **4** (14%) o'r unedau y **barnwyd bod ganddynt system larwm ar waith yn yr ardaloedd therapi** nad oedd yn peri risg clymu (e.e. heb linyntynnu ac ati).



Roedd **3** (11%) uned **yn gallu darparu ystafell synhwyrdd a oedd yn ystafell bwrpasol/addasedig**, gyda chyfarpar synhwyrdd digonol, hynny yw gwresogi/awyru/addurno'n ddigonol i gyflawni swyddogaeth yr ystafell, ynghyd â thechnoleg gynorthwyol i gleifion â phroblemau symudedd, symudedd, niwroamrywiaeth.

## Golchdai Cleifion

Dylai'r ystafelloedd hyn fod yn eu lle er mwyn galluogi unigolion i fodloni eu hanghenion personol mewn perthynas â'u dillad.

Dylai'r man hwn ddarparu peiriannau golchi dillad, peiriannau sychu dillad, byrddau smwddio a heyrn. Sinc ac arwynebau gwaith addas ar gyfer plygu/ didoli dillad.

Dylid cadw hylifau dan glo yn unol â phrotocolau lleol.

Dylai eitemau trydanol fod yn destun profion offer PAT rheolaidd ac mae gan staff y gallu i gloi'r man hwn pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Dylai fod mesurau a systemau RHAH yn eu lle ar gyfer golchi dillad wedi'u baeddu a chael gwared ar eitemau o'r fath.



Nid oedd **6** (21%) o'r unedau yn darparu golchdy at ddefnydd cleifion.



Nid oedd gan **4** (22%) o'r 22 uned a oedd yn darparu golchdy cleifion gyfleusterau i storio cemegau a hylifau a ddefnyddiwyd yn y cyfleusterau hynny yn ddiogel.



Hefyd, nid oedd gan **16** (22%) o'r 22 uned ddrysau golchdy hunan-gloi.

## Ceginau Therapi

